



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

Diben: Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI416

Amseru: Unigol

Teitl: Arian grant ar gyfer Ymddiriedolaeth Pobl Ifainc POINT

Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid

Crynodeb Gweithredol:

Mae Ymddiriedolaeth Pobl Ifainc Abergwaun ac Wdig Cyf (POINT) wedi cysylltu â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gan ofyn am arian i gefnogi eu prosiect Ffocws yn y Dyfodol.

Mae Ffocws yn y Dyfodol yn cynnig mynediad am ddim at weithgareddau dengar, dargyfeiriol sy'n arwain pobl i ffwrdd rhag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n darparu man diogel, cefnogol lle mae pobl ifainc yn aros yn weithgar, yn archwilio i'w potensial, ac yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol mewn amgylchedd hwyliog a grymus. Yn agored i bawb, mae'n dileu rhwystrau ariannol sy'n cyfyngu mynediad at gyfle.

Mae Ymddiriedolaeth Pobl Ifainc POINT wedi sefydlu cysylltiadau ac maent wedi cydweithio llawer â gwasanaethau ieuenctid Sir Benfro.

Mae'r cais am gyllid yn ymwneud â gweithgareddau corfforol a gweithgareddau sy'n seiliedig ar antur, gan helpu pobl ifainc i ddatblygu hyder, gwydnwch, a sgiliau mentro cadarnhaol, a lleihau cysylltiad ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Cyfraniad i'r gweithgaredd yw hwn ac nid yw'n cynrychioli gwerth llawn y prosiect gan fod cyllid wedi'i geisio o fannau eraill hefyd.

Mae'r gweithgaredd hwn yn cefnogi un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu, sef atal niwed.

Argymhelliad:

Rhoi £4,926.00 o arian grant fel cyfraniad tuag at y prosiect Ffocws yn y Dyfodol o gyllideb Cronfa'r Comisiynydd.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

Llofnod:



Dyddiad: 14/10/2025